# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 24 Chwefror 2026

Amser: 08.56 - 09.31

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Steffan Lewis (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Marc Wyn Jones, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Nododd y Pwyllgor Busnes y newidiadau a ganlyn:

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Troseddu a Phlismona (~~15~~ <u>0 munud</u>) – *wedi'i ohirio tan 10 Mawrth*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.45pm.

Gofynnodd Heledd Fychan a yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno datganiad llafar ar y weledigaeth ar gyfer rheilffyrdd ledled Cymru yn dilyn y datganiad ysgrifenedig ar y pwnc hwn a gyhoeddwyd ddoe. Cytunodd y Trefnydd i ystyried y mater.

Cafodd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar y trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch y ddadl cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y diwrnod cynt.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.25pm.

Trafododd a nododd y Rheolwyr Busnes y trefniadau ar gyfer pan fydd y Cyfarfod Llawn yn dychwelyd i'r Senedd o'r wythnos hon ymlaen.

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 3 Mawrth 2026**

- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: *Y Bil Lles Plant ac Ysgolion (30 munud)*~~ – *wedi'i ohirio tan 17 Mawrth*

**Dydd Mawrth 10 Mawrth 2026**

- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cael Gwared ar y Gofrestr Olygedig) (Cymru) 2026 (10 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)
  - Rheolau Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026
  - Gorchymyn Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Eithrio Treuliau Diogelwch) (Diwygio) (Cymru) 2026
- Rheoliadau Deddf Cafael 2023 (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2026 (5 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Troseddu a Phlismona (15 munud).
- Cyfnod terfynol y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 18 Mawrth 2026 –**

- Cynnig i gymeradwyo'r Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Recriwtio a Chadw Athrawon (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Ystyried Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Hannah Blythyn AS (Delyn) (30 munud)

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes gais gan Mark Isherwood AS i drefnu'r ddadl a'r bleidlais ar Gyfnod 4 y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yn gynharach yn y trafodion ar 11 Mawrth. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ofyn am ragor o wybodaeth gan yr Aelod ynghylch y rhesymau dros y cais.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Cynlluniau Pensiwn

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

### 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i:

- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion i 16 Mawrth 2026;

- ymestyn y dyddiad cau diwygiedig ar gyfer adrodd ar gyfer y Bil Troseddu a Phlismona i 10 Mawrth 2026.

# 5 Gwaith Gweithdrefnol

## 5.1 Pleidleisio o bell yn y Cyfarfod Llawn

Dychwelodd y Pwyllgor Busnes i ystyried adborth gan grwpiau gwleidyddol ar opsiynau ar gyfer newidiadau yn y dyfodol i drefniadau ar gyfer pleidleisio o bell yn ystod y Cyfarfod Llawn, yn dilyn ystyriaeth flaenorol yn y cyfarfod ar 3 Chwefror.

Dywedodd Heledd Fychan fod grŵp Plaid Cymru yn cefnogi cadw pleidleisio o bell a chyfranogiad o bell mewn trafodion y Cyfarfod Llawn. Mae'r grŵp yn agored i'w gwneud yn ofynnol i Aelodau ddewis un dull o gyfranogi fesul pob Cyfarfod Llawn a/neu gyflwyno terfyn ar nifer, neu gyfran, yr Aelodau sy'n gallu pleidleisio o bell, gyda mesurau diogelwch priodol i sicrhau y gellir amddiffyn anghenion penodol Aelodau sydd â gofynion ychwanegol neu gyfrifoldebau gofalu.

Cadarnhaodd y Trefnydd fod grŵp Llafur Cymru hefyd yn cefnogi cadw pleidleisio o bell a chyfranogiad o bell. Dywedodd y Trefnydd fod mwyafrif o fewn y grŵp o blaid cadw'r trefniadau presennol, gyda rhywfaint o gefnogaeth yn cael ei mynegi i'w gwneud yn ofynnol i Aelodau ddewis un dull o gyfranogi fesul Cyfarfod Llawn oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

Ailadroddodd Paul Davies fod grŵp y Ceidwadwyr Cymreig o blaid terfynu’r trefniadau ar gyfer cyfranogiad o bell a phleidleisio o bell.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i:

- gadw'r gweithdrefnau presennol ar gyfer pleidleisio o bell a chyfranogiad o bell am yr amser sy'n weddill yn y Chweched Senedd; ac
- ystyried canllawiau posibl a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau ddewis un dull o gyfranogi fesul cyfarfod Llawn cyn gwneud penderfyniad ar y canllawiau terfynol i'w trosglwyddo i'r Seithfed Senedd.